1. ***Beth mae Camau Ymlaen yn ei wneud?***

   Mae'r prosiect yn gweithio'n ddwys gyda phlant a phobl ifanc sydd mewn gofal maeth gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd a Phort Talbot ac sy'n wynebu'r posibilrwydd o ymyrraeth i'w lleoliad, yn arbennig lle y gall yr ymyrraeth honno arwain at leoli'r plentyn neu'r person ifanc y tu allan i'r sir.

2. ***Beth yw'r <u>canlyniadau cadarnhaol</u> i'r plant a'r bobl ifanc sy'n cael gwasanaeth gan Camau Ymlaen?***

- **Sicrwydd Lleoliad** – mae dros 80% o'r plant a'r bobl ifanc wedi cadw eu lleoliad ac mae cyfraniad y prosiect wedi lleihau effaith yr amhariad pan ddigwyddodd hynny.

- **Addysg** – Sicrhaodd yr holl blant a phobl ifanc le mewn ysgol neu ryw fath o sefydliad addysg pan ddaeth eu cyfnod gyda'r prosiect i ben.

- **Ymddygiad Tramgwyddus** – Dim ond tri o'r bobl ifanc (6%) a gafodd eu cyhuddo o drosedd yn ystod y cyfnod yr oeddynt yn ymwneud â Camau Ymlaen. Ym mhob achos cawsant eu rhybuddio am droseddau llai difrifol.

- **Iechyd** – Caiff yr holl bobl ifanc eu cynghori ar eu hawliau o ran iechyd a chânt eu cynorthwyo i gael archwiliadau meddygol yn rheolaidd.

Yn ychwanegol at y canlyniadau cadarnhaol hyn, mae Camau Ymlaen wedi*:*

- Datblygu darpariaeth galw heibio lle y gall pobl ifanc a gofalwyr, rhai nad ydynt yn gysylltiedig â'r prosiect, alw heibio am gyngor a chymorth.

- Ymateb i fewnbwn rhanddeiliaid a datblygu gwasanaethau i ddiwallu anghenion a fynegwyd drwy gynnig gwaith cwnsela a stori bywyd.

- Gweithio gyda phobl ifanc i'w hail-integreiddio yn ôl i'r gymuned pan gânt eu dychwelyd o leoliadau 'y tu allan i'r sir'.

3. ***Beth yw barn y Gofalwyr Maeth a'r Bobl Ifanc am Camau Ymlaen?***

   Mae gwaith ymchwil annibynnol wedi nodi;

- Boddhad cyffredinol ymysg y rhanddeiliaid yn arbennig o ran gofalwyr maeth a phobl ifanc.

- Gostyngiad yn y nifer o geisiadau am ofal seibiant ar gyfer gofalwyr maeth.

I gael gwybodaeth bellach am Camau Ymlaen neu'r gwaith Ymchwil Annibynnol
cliciwch yma